Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 09.03.2023

Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# HYFFORDDIANT: Cymorth i Dyfu | Cwrs Rheolaeth

Mae rhaglen Llywodraeth y DU, Cymorth i Dyfu: Cynllun Rheolaeth, wedi'i gynllunio i fod yn hylaw ochr yn ochr â gwaith llawn amser ac mae'n cefnogi arweinwyr busnesau bach i ddatblygu sgiliau sy'n ymwneud â rheolaeth ariannol, arloesi a mabwysiadu digidol. Mae mwy o wybodaeth am y cwrs nesaf, fydd yn dechrau ar 27 Mawrth 2023 yn Ysgol Busnes Bangor, ar gael ar:

https://lnkd.in/eGghqMaQ

Mae gwybodaeth gyffredinol am raglenni Cymorth i Dyfu ar gael ar:

https://helptogrow.campaign.gov.uk/

## DIGWYDDIAD: Arddangos Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs) 31 Mawrth 2023

Yn bartneriaeth sydd wedi ei gyllido rhwng busnes, sefydliad academaidd a myfyriwr graddedig; mae Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTPs) yn darparu'r sgiliau a galluoedd i fusnesau a sefydliadau gyflawni arloesedd strategol. Cynhelir digwyddiad i arddangos sut mae KTPs yn gweithio a sut gallant fod o fudd i fusnes yng Ngwesty'r Quay Hotel, Deganwy Marina, LL31 9DJ ar 31 Mawrth 2023 (10:00am-1:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://lnkd.in/eqYjivUm

## TRAFNIDIAETH: Streic profwyr cerbydau ac arholwyr traffig – Mawrth 2023

Gallai rhai profion cerbydau, gan gynnwys MOTs ar gyfer cerbydau nwyddau trwm (HGVs), bysiau a threlars, gael eu heffeithio gan streic yn ystod mis Mawrth 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/3Le68D1

## GWOBRAU: Gwobrau Bwyd a Diod Cymru 2023

Mae ceisiadau bellach ar agor ar gyfer 'Gwobrau Bwyd a Diod Cymru 2023', sy'n rhoi llwyfan i ddathlu cynhyrchwyr a chyflenwyr Cymreig. Mae'r gwobrau yn cael eu cynnal ar 18 Mai

2023 yn Venue Cymru, Llandudno a bydd ceisiadau'n cau ar 17 Mawrth 2023. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://foodanddrinkawards.wales/

## CYFLOGAETH: Cyfraddau'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer 2023

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol o fis Ebrill 2023. Ar gyfer gwybodaeth am y cyfraddau newydd, ewch i:

https://www.gov.uk/national-minimum-wage-rates

## CYFLOGAETH: Newidiadau Isafswm Cyflog Amaethyddol o 1 Ebrill 2023

Mae gan bob gweithiwr amaethyddol, garddwriaethol a choedwigaeth cyflogedig yng Nghymru, gan gynnwys gweithwyr a gyflogir gan feistri criwiau ac asiantaethau cyflogaeth, hawl i isafswm Cyflog Amaethyddol o leiaf. Mae canllawiau am y newidiadau, sydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2023, ar gael ar:

https://www.llyw.cymru/cyflogau-amaethyddol-cyfraddau-tal-isaf

## AMAETHYDDIAETH: Canllawiau wedi'u diweddaru ar ddod o hyd i weithiwr proffesiynol i ardystio tystysgrifau iechyd allforio

Mae angen i fusnesau sy'n allforio anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid o'r DU enwebu rhywun i lofnodi tystysgrif iechyd allforio – yn filfeddyg swyddogol neu arolygydd gydag Awdurdod Lleol. Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar ddod o hyd i weithiwr proffesiynol i ardystio tystysgrifau iechyd allforio ar gael ar:

http://bit.ly/3l0IkYF

## CYMORTH: Canllaw ar gyfer adeiladu gwydnwch busnes

Mae gwybodaeth a chefnogaeth i helpu busnesau llai i reoli eu costau, rhoi hwb i'w proffidioldeb hirdymor, a chynyddu eu gwydnwch ar gael yng nghanllaw y British Business Bank ar gyfer adeiladu gwydnwch busnes – ewch i:

http://bit.ly/3l14PN6

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru